


## MAELGWN GWYNEDD (bu farw c. 547)



**Enw:** Maelgwn Gwynedd

**Dyddiad marw:** c. 547

**Pientyn:** Rhun ap Iowan Gwynedd

**Rhiant:** Cadwallon Lawhir ap Einion Yrth

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Milwrol

**Awdur:** William Hopkin Davies

o bla a oedd yn bur eang a chyffredin yn y cyfnod hwnnw); mab Cadwallon Lawhir ac felly'n orŵyr i **Gunedda Wledig**. Bu'n teyrnasu dros Wynedd (Venedotia) yn ail chwarter y 6ed ganrif. Ymddengys fod ei deyrnas yn estyn dros y rhan fwyaf o ogledd-orllewin Cymru, gan gynnwys Môn; dywed traddodiad fod ganddo hefyd amddiffynfa yr oedd yn hoff iawn ohoni yn Negannwy ar orynys Creuddyn. Efe ydyw'r pumed teyrn y mae **Gildas** yn galw sylw at eu drwg-weithredoedd; geilw **Gildas** ef yn 'Maglocunus, draig yr ynys,' yn deyrn milwrol a orchfygasai lawer o frenhinoedd eraill. Yr oedd yn dal o gorff - cf. ei enw 'Maelgwn Hir' - ac yn fwy ei allu na neb bron o'i gyfoeswyr; yr oedd hefyd yn arweinydd medrus mewn rhyfel, braidd yn fyrbwyll ond yn garedig ei natur; eithr yr oedd iddo lawer o ffaelecteddau ac yr oedd yn chwannog i gyflawni gweithredoedd erchyll. Yn ei flynyddoedd cynnar gorchfygodd ei ewythr, frawd ei fam (ni enwir mo hwnnw), eithr yn weddol gynnar wedi hynny rhoes heibio ei allu a'i urddas brenhinol a mynd i fynachlog. Yn y cyfnod hwnnw, neu ychydig yn gynt, gwrandawodd, meddai **Gildas**, ar addysg y gŵr 'a oedd yn addysgydd dysgedig y rhan fwyaf o Brydain bron,' sef yr athro y credir yn bur gyffredin mai yr enwog **Illtyd sant** ydoedd, y gŵr y cysylltir ei fynachlog â Llanilltyd Fawr yn Sir Forgannwg neu ag Ynys Bŷr yn neau Sir Benfro. Methodd Maelgwn fodd bynnag ddygydd â'r bywyd mynachaidd, torrodd ei addunedau, a dychwelodd i'w safle fel brenin. Yn ystod y cyfnod a ddilynodd y ceir **Gildas** a thraddodiad Cymru yn cytuno i'w ddisgrifio fel un yn gwrthwynebu y seintiau, h.y. yn erbyn mynachaeth, ac yn cyflawni drwg-weithredoedd - yn eu plith lofruddio ei wraig a'i nai a phriodi gweddw'r nai hwnnw. Y mae'r un traddodiadau, serch hynny, yn lled awgrymu i Faelgwn edifarhau maes o law a rhoddi breiniau lawer i amryw ganolfannau crefydd. Gan fod **Gildas** yn cyfeirio at ganu clodydd Maelgwn gan glerwyr baldorddus, gellir efallai gasglu bod gan y teyrn ei feirdd llys a'i fod yn noddi cerddorion. Yr oedd yn rheolwr cryf a dawnus, eithr yn wrthnysig. Yn ôl traddodiad Cymru dechreuodd ar ei hir gwsig yn eglwys Rhos.

### Awdur

**Yr Athro William Hopkin Davies**

### Ffynonellau

H. Williams (gol.), *Gildae De excidio Britanniae fragmenta, Liber de paenitentia, accedit et Lorica Gildae / Gildas The ruin of Britain, fragments from lost letters, The penitential, together with the Lorica of Gildas*, 1899, 76-86

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), i, 128-31

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Maelgwn Gwynedd**

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q886399**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. H., (1953). MAELGWN GWYNEDD (bu farw c. 547). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MAEL-GWY-0547>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION

